Adran Addysg a Phlant

Derbyn Plant i Ysgolion Cymunedol ac Gwirfoddol Reoledig Yn Sir Gaerfyrddin

Atebion i Gwestiynau Cyffredin .

Tachwedd 2011

1. Rhagymadrodd

A Diben y llyfryn hwn yw cynorthwyo rhieni a gwarcheidwaid gyda'r broses o wneud cais am fynediad i blentyn mewn naill ai Ysgol Gymunedol neu Ysgol Wirfoddol a Reolir o fewn Sir Gaerfyrddin.

Fe ddylid ystyried fod y ddogfen yn darparu canllawiau yn unig ac nid yw'n cynrychioli diffiniad awdurdodol o'r gyfraith.

Fe ellid cael Cyngor am y broses o wneud cais am fynediad i blentyn mewn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir o Gorff lywodraethol yr ysgol.

2. A oes rhaid i blentyn fynd i'r Ysgol.?

A Yn ôl y gyfraith rhaid i rieni sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol (5 i 16) yn cael addysg amser llawn addas naill ai trwy gofrestru'r plentyn mewn ysgol neu drwy wneud trefniadau eraill sy'n rhoi addysg amser llawn addas i'r plentyn.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gamu i mewn os ydynt yn credu nad yw plentyn yn cael yr addysg sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, naill ai gartref neu yn yr ysgol.

Mae plant yn dod o oedran ysgol gorfodol pan fyddant yn cyrraedd pump oed a, lle bo rhiant wedi dewis cofrestru plentyn yn yr ysgol, mae'n rhaid iddynt ddechrau'r ysgol yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed. Bydd plentyn yn parhau i fod o oedran ysgol gorfodol tan y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn y flwyddyn ysgol y maent yn cyrraedd 16 oed.

3. Pa oedran all blentyn cael ei dderbyn i Ysgol?

A Yn ol y gyfraith rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn cael addysg llawn amser ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

- Tymor yr Hydref ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng y 1af Ebrill a'r 31 ain Awst;
- Tymor y Gwanwyn ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng y 1af Medi a'r 31ain Rhagfyr;a
- Tymor yr Ha far gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng y 1af Ionawr a'r 31 ain Mawrth.

Trefniadau Derbyn ar gyfer plant o Oedran Arall

Er fod na fod addysg blynyddoedd cynnar yn ddarpariaeth statudol mae'r Awdurdod yn caniatau, yn dilyn cais i'r Awdurdod Derbyn, i blant cael ei derbyn a dechrau, ar sail rhan amser, mewn ysgolion meithrin neu mewn dosbarthiadau meithrin mewn Ysgolion Babanod neu Cynradd yn y tymor yn dilyn eu trydedd pen-blwydd.

Mewn ysgolion lle nad oes meithrin yna bydd disgyblion yn cael eu derbyn, yn dilyn cais i'r Awdurdod Derbyn, yn llawn amser ar yr adegau canlynol: -

• ym mis Medi ar gyfer y rhai sydd wedi eu pen-blwydd yn 4 yn ystod 1af Medi – 31ain Rhagfyr;

• ym mis Ionawr ar gyfer y rhai sydd wedi eu pen-blwydd yn 4 yn ystod 1af Ionawr – 31ain Mawrth

• ym mis Ebrill ar gyfer y rhai sydd wedi eu pen-blwydd yn 4 yn ystod 1af Ebrill – 31ain Awst

4. Dewisiadau Rhieni. A oes modd i mi ddatgan dewis am Ysgol Benodol ?

C Beth yw dalgylch ysgol a pham ei fod yn bwysig at ddibenion derbyn?

A Mae pob ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol benodol. Cyfeirir at yr ardal ddaearyddol honno fel dalgylch yr ysgol ac fel arfer bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr ysgol yn dod o'r dalgylch hwnnw.

Mae rheoliadau sy'n cyfyngu ar nifer y disgyblion a all gael eu derbyn i ysgol mewn unrhyw flwyddyn. Os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn cymhwyso ei feini prawf gordanysgrifio a fydd yn blaenoriaethu'r ceisiadau.

Os bydd y cais wedi dod i law mewn pryd ac os cafodd y meini prawf eraill eu bodloni, bydd disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn cael mwy o flaenoriaeth na'r rhai y tu allan i'r dalgylch. **Mae'r dalgylch hefyd yn bwysig wrth ystyried yr hawl i gael cludiant ysgol.**

Mae copïau o fapiau'r dalgylch ar gael yn yr ysgol neu os ewch i wefan y Cyngor Sir gallwch weld beth yw dalgylch yr ysgol ar gyfer eich cartref chi.

C A yw'n bosibl i blentyn wneud cais i gael ei dderbyn i ysgol heblaw ysgol y dalgylch?

A Ydy - bydd yr Adain Llywodraethu Ysgolion yn delio ag unrhyw gais i blentyn gael ei dderbyn i ysgol gymunedol neu Ysgol Wirfoddol a Reolir yn Sir Gaerfyrddin.

C Oes modd gwneud cais i blentyn gael ei dderbyn i fwy nag un ysgol?

A Oes, bydd y ffurflen yn caniatáu i chi ddewis mwy nag un ysgol a chaiff eich dewisiadau eu trin yn gyfartal.

C A allai fy nghais am le mewn ysgol gael ei wrthod er fy mod yn byw yn y dalgylch?

A Gallai. Mae gan bob ysgol uchafswm o ddisgyblion y gall ddarparu ar eu cyfer. Mae cyfyngiad hefyd ar nifer y disgyblion y gall ysgol eu derbyn i unrhyw gŵp blwyddyn. Cyfeirir at hyn fel y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer yr ysgol honno. Bydd yr Awdurdod yn gwrthod derbyn i'r ysgol pan fydd y terfyn hwnnw wedi ei gyrraedd

5. Sut mae gwneud cais ar gyfer derbyn fy mhlentyn i ysgol?

C Sut mae gwneud cais am le i fy mhlentyn mewn Ysgol?

A Mae rheidrwydd cyfreithiol i gyflwyno cais i dderbyn plentyn i ysgol.

Mae cyfnod o amser bob blwyddyn y cyfeirir ato fel y cylch derbyn pryd y gall rhieni/gwarcheidwaid wneud cais ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol. Ar gyfer Ysgol Gymunedol neu Ysgol Wirfoddol a Reolir mae angen i chi lenwi ffurflen gais ar-lein o'ch cyfrifiadur cartref . Mae hon ar gael ar wefan y Cyngor Sir http://arlein.sirgar.gov.uk/derbyniadauysgol
Os nad oes gennych gyfrifiadur cartref, yna cysylltwch a'r ysgol i drefnu i'ch cais gael ei fewnbynnu ar eich rhan.

Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, ysgolion annibynnol ac ysgolion Ymddiriedolaeth nid y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ac mae trefniadau ar wahân ar gyfer y rheini. Gellir cael y manylion o'r ysgol.

C Pryd ddylwn i wneud cais am ysgol?

A Dylech wneud cais yn y flwyddyn cyn i'r disgybl gael ei dderbyn i'r ysgol. Y cylch derbyn arferol yw rhwng mis Tachwedd a diwedd Ionawr ar gyfer disgyblion sydd i'w derbyn y mis Medi canlynol. Mae'r manylion y dyddiadau ar gyfer pob cylch derbyn a'r dyddiadau ar gyfer dychwelyd y ffurflenni i'r Cyngor i'w cael ar wefan y Cyngor, yn y llawlyfr gwybodaeth i rieni neu yn yr ysgol.

Os ydych yn ansicr am unrhyw fater, cysylltwch â'r Adain Llywodraethu Ysgolion.

C Rwyf wedi rhoi'r ffurflen i'r ysgol, felly dylai fod yn iawn i'm plentyn / plant ddechrau ym mis Medi.

A Na. Bydd angen llythyr ffurfiol oddi wrth Adain Llywodraethu Ysgolion y Cyngor cyn y gellir derbyn plentyn i ysgol yn gyfreithlon.

C Mae gennym frodyr a chwiorydd yn yr ysgol eisoes. Ydy brodyr a chwiorydd yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r ysgol honno?

A Na. Nid oes gan ddisgyblion sydd â brodyr a chwiorydd eisoes yn yr ysgol hawl awtomatig i gael eu derbyn. Er y bydd y Cyngor yn ceisio helpu rhieni i fodloni eu dewis o ysgolion, nid oes sicrwydd y byddant yn gallu gwneud hynny

C Mae gan fy mhlentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. A yw hynny'n golygu y caiff ei dderbyn yn awtomatig i'r ysgol?

A Os yw'r datganiad o Anghenion Addysgol yn enwi'r ysgol ac yn nodi mai dim ond yn yr ysgol honno y gall anghenion y disgybl gael eu diwallu, yna fel arfer bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid gwneud cais yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir.

C Mae swyddog meddygol wedi argymell bod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol.

A Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag bydd angen i chi gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan swyddog meddygol a fydd yn esbonio sut y bydd mynychu ysgol benodol yn bodloni anghenion unigol y disgybl. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol neu am asesiad annibynnol o'r achos os bydd o'r farn fod angen hynny.

C Rwyf wedi siarad â'r ysgol yn dilyn genedigaeth fy mhlentyn ac rwyf wedi gofyn i'r ysgol roi ei enw ar gyfer cael ei dderbyn. A yw hynny'n ddigon?

A Nac ydy. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig yn ystod y cylch derbyn i Adain Llywodraethu Ysgolion yr Awdurdod a rhaid gwneud y cais erbyn dyddiad penodol.

C Yn y gorffennol mae plant y dosbarth Meithrin lleol bob amser wedi mynd i'r ysgol leol. Onid ydyn nhw'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig?

A Nac ydyn. Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais erbyn y dyddiad penodedig. Nid oes trosglwyddiad awtomatig.

C Mae fy mhlentyn yn mynychu ysgol fabanod ac i fod i drosglwyddo i'r ysgol iau ym mis Medi. Oes angen i mi gyflwyno ffurflen gais?

A Oes. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen gais. Yn gyfreithiol, mae'r ysgolion yn ddau sefydliad ar wahân ac felly mae ganddyn nhw niferoedd derbyn ar wahân.

C Mae'r ysgol fel arfer yn anfon llythyr at rieni yn dweud wrthyn nhw am yr angen i gwblhau ffurflen gais ar gyfer derbyn, ond nid wyf wedi cael unrhyw lythyr o'r fath er fy mod yn gwybod am rieni sydd wedi cael un.

A Mae ysgolion yn aml yn ceisio helpu rhieni trwy gadw rhestr o'r rhai sydd wedi mynegi diddordeb i'w plentyn/plant gael eu derbyn i'r ysgol trwy anfon llythyr atgoffa at rieni/gwarcheidwaid ar yr adeg briodol. Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i wneud hynny, a gweithred wirfoddol gan yr ysgol yn unig yw hynny i geisio helpu rhieni. Y rhieni/gwarcheidwaid ac nid yr ysgol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r ffurflen.

6. Gwneud Cais – Dyddiad Cau.?

C Beth yw'r dyddiad cau am geisiadau.?

A Mae yn rhaid i'r ffurflen gais gael ei gwblhau **a'i derbyn gan yr Awdurdod derbyniadau** erbyn **31 o Ionawr yn y flwyddyn ysgol cyn i'r plentyn i fod i ddechrau yn yr ysgol. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ddisgyblion ac yn cynnwys disgyblion oed meithrin yn ogystal â disgyblion sy'n byw o fewn ardal dalgylch yr ysgol.** Nid oes yna fynediad awtomatig o ddisgyblion i ysgol.

Mae'n debygol felly y bydd methiant i gyflwyno cais erbyn y dyddiad yn golygu na fydd eich plentyn yn llwyddo i gael lle yn yr ysgol.

C Beth fydd yn digwydd os bydda i wedi colli'r dyddiad cau ar gyfer y cylch derbyn?

A Caiff y cais ei drin fel cais hwyr. Nid ymdrinnir â cheisiadau hwyr hyd nes bydd yr holl geisiadau a wnaed cyn y dyddiad cau wedi cael eu hystyried. Rydych yn llawer llai tebygol o gael cynnig lle yn un o'r ysgolion sydd orau gennych.

Os ydych yn credu bod amgylchiadau eithriadol o ran pam nad ydych yn gallu cyflwyno cais erbyn yr amser penodedig, ysgrifennwch at Dîm Derbyniadau'r Adain Llywodraethu Ysgolion gan roi eich rhesymau ac amgáu tystiolaeth ategol. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei hystyried gan banel o uwch swyddogion a bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun. Caiff rhieni lythyr yn eu hysbysu am y penderfyniad.

7. Sut fyddai yn gwybod os yw'r Cyngor wedi derbyn fy nghais?

C Sut fydda i'n gwybod os yw'r Cyngor wedi derbyn fy nghais?

A Os ydych yn cyflwyno cais ar-lein o'ch cyfrifiadur cartref, bydd neges e-bost yn cael ei anfon yn uniongyrchol at y cyfeiriad e-bost sydd wedi nodi ar y ffurflen. Bydd hyn yn cynnwys copi o'r ffurflen gais fel dogfen pdf y gallwch ei hargraffu a'i gadw fel cadarnhad.Mi fydd hefyd yn cynnwys rhif cyfeirnod unigryw ar gyfer eich cais.

Os yw'r ysgol wedi mewnbynnu'r cais ar eich rhan, yna bydd y copi pdf yn cael ei anfon i'r ysgol i chi godi a chadw.

8. Beth fydd yn digwydd os fydd yna fwy o geisiadau nag sydd o lefoedd ar gael ?

C Os oes mwy o geisiadau na lleoedd, sut fydd y Cyngor yn penderfynu pa geisiadau i'w derbyn?

A Bydd y Cyngor yn cymhwyso'r hyn y cyfeirir ato fel y meini prawf gordanysgrifio. Nodir hynny yn y Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni. Caiff y ceisiadau eu blaenoriaethu fel a ganlyn:-

(i) Plant sy'n derbyn gofal;
(ii) Plant a chanddynt ddatganiad o anghenion addysgol sy'n enwi'r ysgol fel y darparydd penodol ac agosaf all ddiwallu anghenion seicolegol, meddygol neu addysgol arbennig y plentyn;
(iii) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd a brawd/chwaer neu frodyr/ chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol adeg y lle a gofynnir amdano;
(iv) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/ chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano;
(v) Plant sy'n byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd a brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr

ysgol adeg y lle y gofynnir amdano;
(vi) Plant sy'n byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano.

Yn unrhyw un o'r categorïau uchod mi fydd y canlynol yn berthnasol;

(a) Pellter

Defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol yn faen prawf ar gyfer penderfynu blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw'n bellach i ffwrdd. Mesurir y pellter ar hyd y ffordd fawr neu lwybr cerdded cyhoeddus.

(b) Brodyr a Chwiorydd

Bydd plant yn cael eu hystyried yn frodyr a chwiorydd os ydynt yn:-

- frawd neu chwaer lawn neu'n hanner brawd a chwaer;
- brawd neu chwaer fabwysiedig

(c) Plant Genedigaethau Lluosog

- dan unrhyw amgylchiadau pan mae un lle ar gael a phan mae'r plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr A Ll yn derbyn y ddau/ yr holl blant.

(d) Plant Aelodau Lluoedd Arfog y DG

- Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y DG yn cael ei trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

9. A oes modd i Apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i beidio a derbyn blentyn i Ysgol ?

A Os yw'r plentyn o oedran ysgol statudol, yna gallwch ofyn am i'r achos gael ei adolygu gan y panel Annibynnol ar gyfer Derbyn i Ysgolion. Rhaid gwneud hynny o fewn y cyfnod amser a fydd yn cael ei nodi yn y llythyr y byddwch yn ei dderbyn gan yr Awdurdod sy'n eich hysbysu nad oes modd derbyn eich plentyn i'r ysgol.

Mae'r panel yn hollol annibynnol o'r Awdurdod Derbyn ac mae eu penderfyniad yn rhwymo'r ddau barti h.y yr Awdurdod Derbyn a'r rhiant.

Nid oes hawl i apelio ar gyfer derbyn disgybl i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar.

10. Rydw i wedi derbyn llythyr yn cynnig lle mewn Ysgol a oes angen i mi wneud unrhiwbeth pellach ?

A Oes - mae ffurflen ynghlwm wrth y llythyr sy'n gofyn i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y cynnig o le yn yr ysgol. Os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen o fewn yr amser a nodir, bydd y lle a gynigiwyd yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i ddisgybl arall.